**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Christine Chapman AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Tachwedd 2015

Annwyl Christine

Ers imi ddod i'r Pwyllgor ar 16 Medi, gwelwyd nifer o ddatblygiadau o ran mewnbwn Llywodraeth Cymru i'r broses o adnewyddu Siarter y BBC.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru a'u swyddogion wedi bod mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau i adnewyddu'r Siarter o'r dechrau'n deg. Gallaf gadarnhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan bob parti perthnasol - Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Ymddiriedolaeth y BBC a Gweithrediaeth y BBC. Mae hyn yn diogelu rôl ymgynghorol, ffurfiol Llywodraeth Cymru yn yr adolygiadau cyfredol o'r Siarter ac adolygiadau'r dyfodol, yn unol â'r trefniadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rwy'n amgáu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd wedi'i lofnodi.

Fel yr esboniwyd eisoes i'r Pwyllgor, oherwydd amseru'r broses o adolygu'r Siarter, gwnaed penderfyniad i ddatblygu Memorandwm cychwynnol a fyddai'n ffurfioli rôl Llywodraeth Cymru nawr. Mae hefyd yn rhwymo pawb sy'n ei lofnodi i gydweithio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn datblygu ail Femorandwm, a fydd yn cynnwys y Cynulliad Cenedlaethol fel llofnodwr ac yn disodli'r cyntaf. Bydd yn cadw ymrwymiadau o'r Memorandwm cyntaf ac yn ffurfioli rôl y Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo barhau i graffu ar y BBC a'r dyletswyddau cysylltiedig a osodir ar y BBC - i roi adroddiadau a datganiadau blynyddol o gyfrifon i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymddangos yn rheolaidd gerbron pwyllgor(au) perthnasol y Cynulliad. Bydd y rhain yn debyg i'r rheini sydd eisoes ym Memorandwm yr Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
gohebiaeth.Ken.Skates@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eisoes mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod hyn gyda swyddogion o swyddfa'r Llywydd a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dylid cytuno ar yr ail Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, felly, a'i sefydlu ymhell cyn cylch adrodd nesaf y BBC yn 2016.

Ym mis Hydref, rhoddodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl i bapur ymgynghori Llywodraeth y DU am ddyfodol y BBC, a lansiwyd ar 16 Gorffennaf. Rwy'n ymwybodol bod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi derbyn dros 192,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Rwy'n amgáu ein hymateb er gwybodaeth ichi.

Er bod gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol yn yr Adolygiad o'r Siarter, roedd yr ymateb yn gyfle, yn gynnar yn y broses, i amlinellu ein sylwadau ar nifer o'r prif faterion sydd dan ystyriaeth yn y ddogfen ymgynghori, yng nghyd-destun Cymru.

Roedd ein hymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- y gwasanaethau y dylai'r BBC, fel prif ddarlledwr y DU ar gyfer y cyhoedd, fod yn eu darparu ar gyfer Cymru;
- yr angen iddo gael mandad ac adnoddau priodol i'w darparu;
- yr angen i gryfhau'r trefniadau atebolrwydd i'r gwahanol wledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys Cymru, a'r trefniadau craffu ar eu cyfer.

Yn ein hymateb, nodwyd na chynhaliwyd gwerthusiad nac asesiad o ran pa mor addas yw rhwymedigaethau cyfredol gwasanaethau cyhoeddus i'w diben, ar ôl datganoli pwerau helaeth i'r llywodraethau gwahanol. Dros yr un cyfnod, caniatawyd i'r rhwymedigaethau hynny gael eu herydu, am resymau masnachol i raddau helaeth. Nodwyd bod angen adolygiad o'r fath ar frys erbyn hyn a galwyd am iddo gael ei gynnal ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Siarter, fel sail i unrhyw dargedau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau a allai gael eu cynnwys yn y Siarter newydd, a fydd yn gysylltiedig â set newydd o ddibenion a gwerthoedd cyhoeddus.

Ar ôl inni gyflwyno ein hymateb, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 19 Hydref i atgyfnerthu rhai o'r pwyntiau allweddol hyn am ddyfodol Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pwysleisiodd fod angen cynnal adolygiad ar frys a galwodd am iddo ganolbwyntio'n glir iawn ar ddibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru, yn benodol o ran y ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru a sut mae'n portreadu Cymru.

Awgrymodd y Prif Weinidog y dylai'r adolygiad ystyried newidiadau sy'n deillio o ddatganoli a'r newidiadau o fewn y DU, cwestiwn hyrwyddo a chynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru, cwestiwn cynrychioli pobl a bywyd Cymru a'r methiannau sydd yn y farchnad ar hyn o bryd mewn perthynas â Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Byddai angen i adolygiad o'r fath ystyried S4C sydd, er gwaethaf ei hannibyniaeth ar y BBC, ag elfennau diwylliannol, masnachol ac addysgol sy'n amlwg yn debyg. Gwnaeth y Prif Weinidog hi'n glir nad oedd yn awgrymu y dylid tynnu oddi wrth annibyniaeth S4C - a dweud y gwir, er mwyn helpu i sicrhau annibyniaeth strategol ac ariannol S4C, roedd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yr wythnos flaenorol yn galw ar Lywodraeth y DU i gomisiynu ar frys yr adolygiad annibynnol o S4C a oedd wedi'i addo yn ystod cyfnod yr adolygiad cyfredol o wariant. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn ein hymateb i ymgynghoriad y BBC ar yr Adolygiad o'r Siarter.

Daeth y Prif Weinidog i'r casgliad y dylai'r adolygiad fod yn sylfaen i "gontract" Siarter newydd i Gymru. Byddai hyn yn diffinio'n glir yr hyn y mae ei angen ar Gymru a'r hyn y

mae'n ddyletswydd ar y BBC i'w gyflawni yn ystod y ddegawd i ddod, ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru ac am Gymru ar gyfer gweddill y byd.

Edrychaf ymlaen at roi mwy o wybodaeth ichi am y materion hyn pan fyddaf gerbron y Pwyllgor ar 18 Tachwedd.

Yn gywir

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## MEMORANDUM OF UNDERSTANDING: BBC CHARTER REVIEW/WELSH GOVERNMENT

**Preamble**

Following the final agreement of the Memorandum of Understanding between the UK Government, Scottish Government, Scottish Parliament and the BBC (see 'Background'), the UK Government is hereby seeking to establish parity for the Welsh Government in respect of a formal consultative role in the process of Charter Review and the ongoing scrutiny of the BBC

**Parties**

- The Department for Culture, Media and Sport (The Department)
- The BBC[1]
- The Welsh Government

**Commitments:**

**1. Charter Review**

The BBC is established by Royal Charter. The Charter sets out how the BBC is constituted, its public purposes, and the respective roles and composition of the BBC Trust and the Executive Board. The current Royal Charter expires at the end of 31 December 2016.

The terms of the formal consultative role for the Welsh Government in the process of reviewing the BBC's Charter shall be as follows:

- The Department will consult the Welsh Government on the draft terms of reference for the Charter Review in advance of their publication.
- The Welsh Government will lay the final terms of reference for the Charter Review before the National Assembly for Wales.
- The Department will consult the Welsh Government through the process of reviewing the Charter.
- The Welsh Government will lay the draft Charter and Framework Agreement before the National Assembly for Wales, and should the Assembly deem it appropriate, schedule a 'take note' debate on the content of the draft Charter and Framework Agreement[2].

---

1 In this Memorandum of Understanding - "the BBC" means the British Broadcasting Corporation; "the Executive" means the Executive Board of the BBC; and "the Trust" means the BBC Trust; and any reference to "the BBC" (without qualification) includes a reference to both the Trust and the Executive, so far as makes sense in the context.

2 This would ensure parity with the processes in the UK Parliament for the last Charter Review in 2006. See the 'take note' debate in the House of Lords, 16 June 2006.

- The Department will consult the Welsh Government before recommending to Her Majesty in Council that the draft Charter is granted.

## 2. Annual reports and accounts, and appearing before committees

As part of 'Powers for a Purpose: Towards a lasting devolution settlement for Wales' in February 2015[3], the UK Government indicated that it would *'...seek a commitment from the BBC and S4C that they should send their annual reports and accounts for laying in the Assembly'*.

Prior to the publication of the BBC's annual report and accounts for 2015/16 the signatories will work to agree a revised Memorandum of Understanding, to supersede this one, which would (subject to agreement[4]) include commitments in the following areas, to establish parity across the devolved Governments in relation to annual reports and accounts, and appearing before committees:

- A commitment from the BBC to send its annual report and accounts to the Welsh Government and a commitment from the Welsh Government to lay these before the National Assembly for Wales; and
- A commitment from the BBC to appear before the National Assembly for Wales committees on matters relating to Wales, on the same basis as it does in the UK Parliament

## 3. Next Charter

Subject to a Royal Charter for the continuation of the BBC being granted, the consultative processes relating to Charter Review set out above, and such commitments as are agreed in relation to the BBC's Annual Reports and Accounts, and appearing before committees referred to above will be enshrined in that Charter and in all subsequent Charters unless otherwise set in statute elsewhere.

---

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200506/ldhansrd/vo060616/text/60616-01.htm); and the Commons debate on 10 July (see: http://www.parliament.the-stationery-office.co.uk/pa/cm/cmvote/60710v01.htm).

[3] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408587/47683_CM9020_ENGLISH.pdf

[4] Including with the National Assembly for Wales

## 4. Signatures

| | |
|---|---|
| [For and on behalf of the Department] | |
| [For and on behalf of the BBC Executive] | [For and on behalf of the BBC Trust] |

## 5. Background

Following the referendum on the independence of Scotland on 18 September 2014, the Smith Commission Agreement, published on 27 November 2014[5], made several proposals specific to the British Broadcasting Corporation (BBC). As set out in paragraph 36 of the Agreement:

> *There will be a formal consultative role for the Scottish Government and the Scottish Parliament in the process of reviewing the BBC's Charter.*

The UK Government's Command paper, 'Scotland in the United Kingdom: An enduring settlement'[6], published in January 2015, set out at paragraphs 5.2.1 – 5.2.3 how paragraph 36 of the Smith Commission Agreement would be enacted by a Memorandum of Understanding (MoU), stating;

*5.2.1 Paragraph 36 of the Smith Commission Agreement, which relates to the relationship between the British Broadcasting Corporation (BBC) and the Scottish Government and Scottish Parliament, will be enacted by Memorandum of Understanding (MoU). This MoU, entered into by the UK Government, Scottish Government, Scottish Parliament and the BBC, will fulfil the Agreement's proposal by setting out commitments that guarantee a full consultative role for the Scottish Government and Scottish Parliament in the review of the Royal Charter and the ongoing scrutiny of the BBC.*

*5.2.2 The commitments outlined in the MoU will be:*

- *A commitment on the UK Government to consult with the Scottish Government and Scottish Parliament before recommending that any Royal Charter on the BBC is granted, and detail concerning the terms of engagement throughout the review process;*
- *A commitment from the BBC to send its annual report and accounts to the Scottish Government and a commitment from the Scottish Government to lay these before the Scottish Parliament;*
- *A commitment from the BBC to appear before Scottish Parliament committees on matters relating to Scotland; and*
- *A commitment to enshrine all the above in the next Charter.*

*5.2.3 Setting this out in an MoU, rather than draft clauses, ensures that the BBC's integrity and independence is secured by keeping its governance and constitutional arrangements off the statute books. Importantly, delivering this commitment by MoU will ensure that the Scottish Government and Scottish Parliament are able to have a*

---

[5] https://www.smith-commission.scot/smith-commission-report/

[6] https://www.gov.uk/government/publications/scotland-in-the-united-kingdom-an-enduring-settlement

*consultative role in time for the next Charter Review, which is due to commence after the 2015 General Election; any draft clauses in this respect, setting out a formal role for the Scottish Government, would necessarily come into force too late to guarantee such an involvement. Furthermore, the process, timing and scope of the review of the BBC's Charter are not set out in statute.*

This Memorandum of Understanding establishes parity for the Welsh Government in respect of a formal consultative role in the process of Charter Review and commits all signatories to ensuring parity in respect of the ongoing scrutiny of the BBC.

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymgynghoriad Adolygiad Siarter y BBC

## Rhagarweiniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn ar yr Adolygiad o Siarter y BBC.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru a'u swyddogion wedi bod mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau i adnewyddu'r Siarter o'r dechrau'n deg. Rydym wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU a'r BBC, sy'n rhoi rôl ymgynghorol, ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn yr adolygiad o'r Siarter, yn unol â'r trefniadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r llofnodwyr wedi ymrwymo i gydweithio â'r Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn datblygu Memorandwm pellach a fydd yn diogelu rôl y Cynulliad wrth iddo barhau i graffu ar y BBC yng Nghymru a'i dal yn atebol.

Er bod gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol yn yr Adolygiad o'r Siarter, rydym yn falch o gael achub ar y cyfle hwn, yn gynnar yn y broses, i nodi ambell beth sydd wedi ein taro ynghylch nifer o'r materion allweddol sydd dan sylw yn y ddogfen ymgynghori, yng nghyd-destun Cymru. Bydd ein hymatebion i rai cwestiynau yn fanylach nag i eraill; ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu canolbwyntio'n bennaf ar:

- y gwasanaethau y dylai'r BBC, fel prif ddarlledwr y DU ar gyfer y cyhoedd, fod yn eu darparu ar gyfer Cymru;
- yr angen iddo gael mandad ac adnoddau priodol i'w darparu;
- yr angen i gryfhau'r trefniadau atebolrwydd i'r gwahanol wledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys Cymru, a'r trefniadau craffu ar eu cyfer.

Mae'n hollbwysig bod y Siarter newydd yn adlewyrchu'n llawn fuddiannau pobl Cymru a'r setliad datganoledig cyfredol, sy'n newid. Mae Cymru yn genedl yn ei rhinwedd ei hun ac mae ganddi ddiwylliant ac iaith unigryw. Mae ei hethos dwyieithog a'i natur a'i hanes yn unigryw o fewn y DU; mae angen eu diogelu a'u dathlu.

Fel y mae'r datganiad a lofnodwyd gan dri o arweinwyr pleidiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Gorffennaf 2015[1] yn ei adlewyrchu, mae yna gryn bryder am yr heriau sy'n wynebu BBC Cymru Wales ac S4C yn sgil pwysau ariannol. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn nadl y Cyfarfod Llawn ar ddarlledu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Medi 2015[2].

[1] http://gov.wales/docs/drah/publications/150909-cross-party-statement-en.pdf
[2]http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3429&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings#237962

Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i'r BBC weithredu yn unol â'i datganiadau cyhoeddus y bydd y trefniant a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf 2015 rhyngddi a Llywodraeth y DU mewn perthynas â ffi'r drwydded yn ariannol niwtral i'r BBC ac na fydd yn effeithio ar wasanaethau. Roedd y datganiad trawsbleidiol yn nodi bod rheolwyr y BBC yn rhoi sicrwydd na fydd y cytundeb hwn, felly, yn effeithio ar gyllidebau BBC Cymru Wales nac S4C. Rydym hefyd yn disgwyl i Lywodraeth y DU anrhydeddu telerau'r cytundeb a pheidio â gwneud mwy o doriadau na brigdorri refeniw ffioedd trwyddedau'r BBC.

Roedd y datganiad yn mynegi pryder ynghylch y ffaith na ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru nac â'r Cynulliad Cenedlaethol cyn dod i'r cytundeb hwn a'i bod yn annemocrataidd bod Llywodraeth y DU a'r BBC wedi gwneud penderfyniadau y tu ôl i ddrysau caeedig ac y tu allan i broses adnewyddu Siarter y BBC.

## Pam y BBC? Cenhadaeth, diben a gwerthoedd

### C1 Sut gellir gwella dibenion cyhoeddus y BBC fel bydd rhagor o eglurder ynghylch beth ddylai'r BBC ei gyflawni?

Mae rôl hollbwysig gan y BBC o hyd fel Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus, er gwaethaf y sianelau lu sydd gennym bellach, a'r datblygiadau digidol sydd wedi ei gwneud yn bosibl creu ffyrdd newydd o ddarlledu ar gyfer y cyhoedd ledled y DU.

Mae rôl y BBC yn bwysicach byth yng Nghymru o ystyried gwendid y cyfryngau print. Ychydig yw'r sylw a roddir i fywyd cyhoeddus a chymdeithas Cymru ym mhapurau newydd y DU ac ar wasanaethau darlledu'r DU, er mai'r rhain yw'r prif gyfryngau yng Nghymru. Nid yw'r ffordd y mae Cymru yn cael ei phortreadu yng nghyfryngau'r DU yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a chyfoeth y genedl.

Mae democratiaeth effeithiol yn dibynnu ar roi gwybodaeth i ddinasyddion allu gwneud penderfyniadau. Ychydig o gyfryngau newyddion sydd yng Nghymru ac nid oes digon o leisiau ganddi. Mae'r rhan fwyaf o bobl, felly, yn dibynnu ar gyfryngau newyddion y DU nad ydynt yn rhoi llawer o sylw i Gymru. Er bod yna dystiolaeth bod mwy o sôn am faterion gwleidyddol datganoledig yng Nghymru ers Adroddiad King, mae yna le i wella o hyd. Nid yw'r cyfryngau newyddion yn rhoi digon o sylw i faterion Cymreig a digwyddiadau yng Nghymru. Nid yw'r wybodaeth a'r cyd-destun sydd ei angen er mwyn gwerthuso llwyddiant sefydliadau Cymru, neu eu diffyg llwyddiant, ar gael yn hawdd i'r rhan fwyaf o bobl Cymru.

Fel y mae adolygiad diweddar Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei adlewyrchu, y BBC, sef conglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n buddsoddi fwyaf yng Nghymru, a chynnyrch y BBC sy'n cael ei ddarlledu yma fwyaf. Y BBC sy'n rheoli rhaglenni Saesneg a wnaed yn benodol ar gyfer

Cymru. Cynhyrchodd 592 o oriau yn 2013 o gymharu â 331 gan ITV Cymru. Yn naturiol, mae Llywodraeth Cymru yn bryderus bod 101 yn llai o oriau wedi'u cynhyrchu ar gyfer rhaglenni nad oeddent yn rhan o rwydwaith Prydain gyfan y BBC rhwng 2011 a 2013. Ar raglenni nad oeddent yn rhaglenni newyddion y cwtogwyd fwyaf. Serch hynny, rydym yn cydnabod mai'r BBC sy'n dal i ddarparu'r rhan fwyaf o raglenni nad ydynt yn rhan o rwydwaith Prydain gyfan ac nad ydynt yn rhaglenni newyddion, gan ddarparu 222 o oriau yn 2013 o gymharu â 34 gan ITV Cymru. Y BBC hefyd sy'n darparu'r rhan fwyaf o newyddion teledu sy'n benodol i Gymru ac, i raddau llai, raglenni materion cyfoes hefyd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi buddsoddi llai yng Nghymru, ond wedi buddsoddi mwy yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhai o ranbarthau Lloegr. Mae wedi gwario llai ar Gymru a gwelwyd dirywiad cyfatebol yn y gwerth ychwanegol gros o £292 miliwn yn 2009/10 i £288 miliwn yn 2011/12. Yn ystod yr un cyfnod, mae gwerth ychwanegol gros yr Alban wedi cynyddu o £355 miliwn i £410 miliwn, ac yng Ngogledd Iwerddon o £138 miliwn i £151 miliwn[3]. Mae'n hollbwysig bod hyn yn cael ei gywiro yn ystod cyfnod y Siarter nesaf drwy greu cylch gwaith cryfach, cliriach i gyflawni dros Gymru a'r gwledydd eraill.

Mae pob un o'r dibenion cyhoeddus a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori yn berthnasol i Gymru. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r dibenion cyhoeddus sy'n ymwneud â dinasyddiaeth a chymdeithas sifil; addysg a dysgu; creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol; gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU; lle'r DU yn y byd; a darparu buddion technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd, yn gydnaws â chylch gwaith gwreiddiol yr Arglwydd Reith ar gyfer Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus – hysbysu, addysgu a diddanu.

Nid ydym yn rhannu'r farn bod y dibenion hyn yn rhy eang, nac y dylid eu diwygio i eithrio rhai gweithgareddau y bydd rhai efallai yn eu hystyried yn amhriodol i'r BBC, am ba reswm bynnag. Yn hytrach, gan gydnabod yr amgylchedd mwy cystadleuol ac amrywiol sydd ohoni, byddem yn hapus i weld disgrifiadau mwy manwl a phenodol yn cael eu datblygu o'r pynciau a'r gweithgareddau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt o dan bob diben cyhoeddus – ond ni ddylid ystyried y rhestr honno yn hollgynhwysfawr, neu nad oes modd ychwanegu ati.

Mae'r ffordd y mae technolegau, gwasanaethau a marchnadoedd wedi esblygu dros gyfnod y Siarter ddiwethaf yn dangos y byddai'n ffôl rhagdybio y gallwn ddarogan yn gywir heddiw pa rai o weithgareddau a gwasanaethau presennol y BBC a fydd yn cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan y rheini sy'n talu ffi'r drwydded dros y deg mlynedd nesaf, pa rai na fydd eu hangen ymhen ychydig efallai, pa rai wnaiff ddatblygu'n wasanaethau sy'n gweddu orau i'r

---

[3] Ffynhonnell: *The Economic Value of the BBC,* a gyhoeddwyd gan y BBC ar Ionawr 15 2013 – http://www.bbc.co.uk/blogs/aboutthebbc/entries/65a7abeb-7e74-3b2f-858e-72786cbc5790

farchnad fasnachol, neu pa wasanaethau allai ddatblygu i fod mor bwysig i bortffolio gwasanaethau'r BBC ag iPlayer heddiw.

Yn naturiol, mae'r pedwerydd diben, *Cynrychioli'r DU, ei Gwledydd, ei Rhanbarthau a'i Chymunedau* o ddiddordeb arbennig i ni a byddwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am hyn o dan gwestiwn 7.

**C2 Pa elfennau o wasanaethu pawb yw'r rhai pwysicaf i'r BBC?**

Yn ystod cyfnod y Siarter ddiwethaf, mae mwy a mwy o opsiynau wedi eu creu i gynulleidfaoedd eu gwylio, eu darllen a gwrando arnynt; yn wir, mae'r BBC wedi chwarae rôl allweddol yn y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo rhai o'r rhain. Serch hynny, mewn llawer o achosion, nid yw'n glir eto pa rai o'r gwasanaethau hyn a fydd yn aeddfedu ac yn llwyddo a pha rai a fydd yn dod i ben. Nid yw'r esblygiad hwn yn y cynnyrch a ddarperir yn golygu y dylid culhau cylch gwaith y BBC i ganolbwyntio ar gynulleidfaoedd penodol neu'r rheini nad ydynt yn cael gwasanaethau digonol – yn sicr byddai'n anghywir ymgorffori cyfyngiadau o'r fath i Siarter a fydd yn ein rhwymo am nifer o flynyddoedd, tra gallai newidiadau technolegol neu gymdeithasol nad ydym yn gwybod amdanynt eto effeithio ar fywydau ar draws y DU.

Ymddengys fod y rhagdybiaeth yn y ddogfen ymgynghori mai nod presennol y BBC yw darparu rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer pob cynulleidfa, yn gyfartal, ar draws pob llwyfan, yn sylfaenol anghywir. Gwaith y BBC yw gwasanaethu pawb yn y DU. Fodd bynnag, byddem yn derbyn bod y BBC – ar lefel y DU – yn ceisio nodi ardaloedd y gallai fod angen rhoi sylw arbennig iddynt, yn ogystal â'r rheini lle mae yna raglenni a gwasanaethau digonol o ran nifer ac ansawdd eisoes, fel na fyddai darparu mwy ohonynt yn ychwanegu llawer o werth (er gwaethaf yr angen gwirioneddol i'r BBC ddarparu rhaglenni poblogaidd sy'n apelio at ystod eang o bobl, er mwyn cynnal y proffil y mae ei angen arni er mwyn bod yn effeithiol yn ei rôl fel prif Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus y DU). Mae'r ddarpariaeth annigonol ar gyfer y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau yn broblem wirioneddol, ac fe ddychwelwn at hynny yn nes ymlaen. Ond cyllid yw'r broblem fwyaf yn hynny o beth yn hytrach na chydnabod y bwlch yn y ddarpariaeth (mae'r BBC wedi cydnabod hyn mewn sawl adroddiad rheoli).

Bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn drwy gydol cyfnod y Siarter nesaf, gan asesu'r sefyllfa ar y pryd. Wrth gwrs, gellid dadlau nad yw barn y BBC wedi bod yn gywir bob amser yn y gorffennol, a byddem yn cytuno bod lle i wella o ran penderfyniadau a rheoleiddio cynnwys rhaglenni. Fodd bynnag, yn ein barn ni mae'r BBC yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau darpariaeth i bawb ar draws y farchnad ac o ran codi lefel ansawdd yn gyffredinol, a hynny am fod ganddi gylch gwaith clir i sicrhau bod cynnwys gwasanaethau cyhoeddus ar gael i bawb.

**C3 A ddylai'r Adolygiad o'r Siarter fynd ati'n ffurfiol i sefydlu set o werthoedd ar gyfer y BBC?**

Byddem yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cyfres o werthoedd ar gyfer y BBC ac rydym yn cytuno bod y rhestr o werthoedd posibl yn Nhabl 2 y ddogfen ymgynghori yn fan cychwyn da. Gellid cynnwys y rhain i gyd mewn Siarter newydd, yn unol â datblygiadau pellach. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i annibyniaeth a bod yn ddiduedd yn ein hatebion diweddarach yn yr ymateb hwn.

Fodd bynnag, mewn perthynas â'r gwerth a gynigiwyd y dylai'r BBC fod yn 'amrywiol / cynrychiadol', er ein bod yn cefnogi gwneud mwy o waith i gyflawni'r blaenoriaethau ym Mlwch 1 y ddogfen ymgynghori, rydym yn siomedig na chydnabyddir amrywiaeth ddiwylliannol gwledydd a rhanbarthau'r DU. Yn union fel mae dibenion cyhoeddus y BBC yn cynnwys cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU, dylai strategaeth amrywiaeth y BBC hefyd wneud hynny hefyd mewn perthynas â'i gweithlu sy'n ymddangos ar y sgrin ac yn gweithio yn y cefndir. Dylai unrhyw werth a ddatblygir i ddisgrifio sut bydd y BBC yn amrywiol ac yn gynrychiadol yn y dyfodol fod yn glir ynghylch hyn.

Yn ein hymateb i G9 isod, byddwn yn trafod y potensial ar gyfer set glir o werthoedd, sy'n cyd-fynd â dibenion cyhoeddus y BBC, i hybu ansawdd rhaglenni'r BBC, a pha mor unigryw ac amrywiol y maent.

## Beth mae'r BBC yn ei wneud: maint a chwmpas

### C4 A ellir cyfiawnhau ehangiad y BBC yng nghyd-destun rhagor o ddewis ar gyfer cynulleidfaoedd? A yw'r BBC yn cymryd lle cystadleuwyr masnachol, ac os felly, a ellir cyfiawnhau hyn?

Mae ffocws y BBC ar ddarparu cynnwys a gwasanaethau cymesur sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, gan roi ystyriaeth lawn i'w sefyllfa yn y farchnad a gweithgarwch darlledwyr eraill, yn rhoi cydbwysedd i gynnyrch y BBC. Yn ein barn ni, nid yw, yn gyffredinol, yn cymryd lle cystadleuwyr masnachol. A dweud y gwir, mae yna feysydd lle mae angen i'r BBC wneud mwy, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau a rhaglenni amdanynt.

Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau dewis eang o raglenni teledu Saesneg yng Nghymru, yn rhaglenni newyddion a chyffredinol, sy'n targedu gwylwyr Cymru. Mae gan ITV Cymru, felly, rôl hollbwysig fel opsiwn arall i wylwyr o ran rhaglenni newyddion a chyffredinol.

### C5 Ble mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod gan y BBC effaith ehangach cadarnhaol neu negyddol ar y farchnad?

Rydym yn derbyn y ddadl bod y BBC, fel Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus annibynnol sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer holl wledydd Prydain ac sydd â ffynhonnell gyllid sefydlog, hirdymor, yn cael effaith gadarnhaol o ran codi

safonau ar draws y farchnad. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd yn y ddogfen ymgynghori am effaith dybiedig ei weithgareddau ar y gystadleuaeth o ran darparu newyddion, radio, gwasanaethau ar-lein a chyfryngau print. Dylid monitro'r rhain yn ofalus, ond yn gyffredinol rydym o'r farn bod y gwasanaethau arloesol a ddatblygwyd gan y BBC, sydd wedi cael derbyniad da yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn, wedi cael effaith gadarnhaol, glir sylweddol ar ansawdd gwasanaethau ac o ran eu darparu i fwy o bobl. Yn y meysydd hynny lle mae'r BBC ei hun wedi nodi y dylai geisio gwneud ei rhan a helpu i wella sefyllfa'r farchnad – yn fwyaf penodol, yn achos darpariaeth newyddion print lleol – mae eisoes wedi datblygu cynigion i wneud hynny, a byddwn yn gwylio hyn gyda diddordeb, gan ei bod yn broblem benodol yng Nghymru.

Yn ein barn ni, ni ddylid cwtogi ar gylch gwaith y BBC drwy'r Siarter newydd i gyfyngu ar ei gweithrediadau mewn rhai meysydd fel mater o egwyddor. Gweler hefyd ein sylwadau ar wasanaethu pawb o dan G2. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod potensial y BBC i wella bywydau dinasyddion y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau eisoes wedi'i leihau yn sgil toriadau blaenorol (ee o ganlyniad i *'Delivering Quality First'*) ac mae'n debygol o gael ei erydu ymhellach yn sgil cyhoeddiadau ariannol a wnaed yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn yng nghyfnod y Siarter nesaf; mae angen cryfhau gwasanaethau'r gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau, a pheidio â'u rhoi dan bwysau ariannol pellach.

**C6 Pa rôl ddylai'r BBC ei gael o ran dylanwadu ar y dirwedd dechnolegol yn y dyfodol, yn cynnwys newid i radio digidol yn y dyfodol?**

Dylai'r BBC barhau i fod yn un o'r prif gyrff sy'n hyrwyddo datblygiadau a newidiadau technolegol, lle gall y rhain gynnig gwasanaethau i fwy o bobl, ei gwneud yn haws i bobl gael gafael arnynt a gwella'r dewis, a lle gall annog pobl i ymddiddori mewn diwylliant, democratiaeth a chymdeithas. Mae yna rai materion rheoleiddio i'w hystyried yr ydym wedi sôn amdanynt o'r blaen – mae'r rhain yn berthnasol i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n datblygu gwasanaethau ar gyfer llwyfannau newydd, nid dim ond y BBC.

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Ofcom ar ei adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2015, cytunwyd bod y farchnad ddarlledu fyd-eang yn esblygu'n gyson, gan ddarparu opsiynau newydd ar gyfer darparu rhaglenni a'u derbyn. Mae'r rhain yn ennill hygrededd ymhlith darlledwyr (sy'n amrywio eu harlwy o ran y sianeli darlledu sydd ar gael a chyfrwng eu darparu drwy lwyfannau eraill; ee cyfryngau gwylio rhaglenni ar ôl eu darlledu, ar-lein) ac ymhlith gwylwyr. Mae darlledu traddodiadol yn dal yn bwysig i wylwyr ond maent yn manteisio'n gynyddol ar hyblygrwydd sy'n dod yn sgil llwyfannau eraill.

Mae gwasanaethu pawb a sicrhau bod rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn hawdd yn dal yn bwysig, a dylid ehangu a gwarchod yr egwyddorion hyn, er mwyn bod yn berthnasol i fyd mwy cysylltiedig. Rydym yn cytuno ag asesiad Ofcom mai graddol newid y diffiniad o wasanaethu pawb a rheoleiddio hynny sydd fwyaf synhwyrol, wrth i arlwy newydd amrywiol

aeddfedu ar draws sawl llwyfan. Os bydd darlledwyr yn gweld gwerth, boed ariannol neu strategol, i symud oddi wrth ddarpariaeth draddodiadol ar sianeli sefydledig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yna dylent ddarparu achos busnes cadarn i Ofcom ei ystyried – ond bydd yn rhaid i hyn ddangos sut bydd y darlledwyr neu eu partneriaid cyflenwi ar lwyfannau eraill yn gofalu bod y cynnwys hwn yn hawdd ei ddarganfod a'i hyrwyddo ymhlith ein prif gynulleidfaoedd, boed ar draws y DU neu mewn gwledydd a rhanbarthau penodol.

O safbwynt rheoleiddio, byddai'r dulliau hyn yn mynd law yn llaw ag awgrym Ofcom y gallai rheoleiddio yn ôl sefydliad yn hytrach nag yn ôl sianel fod yn fwy priodol yn y dyfodol. Rydym yn cytuno y dylai Ofcom ystyried hyn yn fanylach ac rydym yn barod i gael trafodaeth yn ei gylch. Rydym wedi dweud y byddai'n synhwyrol, efallai, gweithredu ochr yn ochr â'r Adolygiad o'r Siarter. Ymddengys mai'r BBC fyddai'r corff delfrydol i ystyried y dulliau newydd i ddechrau, o gofio ei statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU a'r amrywio cynyddol ar ei bortffolio gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'n gyson na fyddem o blaid troi at radio digidol oni bai bod yna warant y byddai DAB ar gael i 97% o bobl Cymru o leiaf. Croesawyd cyhoeddiad Llywodraeth y DU gennym ym mis Rhagfyr 2013 y bydd yn parhau i fuddsoddi (gyda'r BBC a gweithredwyr radio masnachol) i gefnogi'r gwaith o gyflwyno radio digidol. Rydym yn cydnabod bod DAB wedi'i gyflwyno i fwy o lefydd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y BBC yn cyflwyno'i rhwydwaith DAB cenedlaethol i 162 o safleoedd trosglwyddo eraill ar draws y DU erbyn diwedd 2015**.** Bydd y rhaglen hon yn cynyddu ei rhwydwaith DAB yng Nghymru o 86% i 92% o gartrefi.

Ni ddylai gwasanaeth DAB yng Nghymru fod yn waeth na'r gwasanaeth AM/FM sydd gennym ar hyn o bryd a dylai fod ar gael mewn ardaloedd lle mai dim ond ar sbectrwm AM y gellir derbyn gorsafoedd radio cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r ffaith bod pobl Cymru yn gwrando ar y radio am fwy o oriau bob wythnos na phobl y DU ar gyfartaledd. Yn achos 49% o gyfanswm oriau gwrando pobl, ar orsafoedd rhwydwaith y BBC y maent yn gwrando.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bryderu, hyd yn oed pan fodlonir y meini prawf arfaethedig ar lefel y DU, ei bod yn sicr bron y byddai'r rhwydwaith DAB oedd ar gael yng Nghymru yn sylweddol is. Mae angen i DAB ddarparu gwasanaeth gwell os yw gwrandawyr o bob rhan o'r DU i gael eu perswadio yn ei gylch.

Mae gennym bryderon hefyd ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael ar draws pob llwyfan mewn gwlad wledig fel Cymru. Roedd y ffaith bod BBC1 Cymru wedi bod ar gael ar HD ers 2013 yn galondid inni. Mae angen datrys yr her gysylltiedig o ran dyfodol rhaglenni rhanbarthol dewisol BBC2, a hynny ar frys. Mae'r nifer sylweddol o wylwyr sy'n mwynhau rhaglenni BBC2, gan gynnwys ei raglenni rygbi yng Nghymru, yn ei chael yn anodd iawn derbyn nad ydynt hefyd ar gael ar ffurf HD.

**C7 Pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu ei chynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol?**

## Cenedlaethol

### ***BBC Cymru Wales***

*Teledu*

Mae'n hollbwysig bod y Siarter newydd yn sicrhau bod digon o gyllid ar gyfer BBC Cymru Wales, ar gyfer rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar wahân i raglenni newyddion a materion cyfoes, rydym yn poeni'n fawr am y cyllid a ddyrennir i raglenni Saesneg i Gymru. Ar hyn o bryd, mae'r arian y mae BBC Cymru Wales yn ei dderbyn yn annigonol i allu darparu rhaglenni Saesneg yn ogystal â'i chynnyrch Cymraeg, yn enwedig yng ngoleuni'r dewis o raglenni Cymraeg sydd gennym eisoes drwy S4C.

Dangoswyd diddordeb mawr yn araith Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, yr Arglwydd Hall, ar 7 Medi, ac yn y papur a gyhoeddwyd wedyn gan y BBC, am weledigaeth ar gyfer BBC mwy agored, sy'n darparu gwasanaethau y gellir eu teilwra ar eich cyfer chi a lle rydych yn byw.

Roeddem yn falch bod y BBC wedi cryfhau ei ymrwymiad i adlewyrchu amrywiaeth lawn bywyd ar draws y DU gan gynnwys Cymru – ac yn enwedig ei fod wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn rhaglenni drama a chomedi sy'n adlewyrchu'n well y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau. Mae dramâu rhwydwaith y BBC wedi bod yn llwyddiant mawr yng Nghymru ac mae'r capasiti a'r arbenigedd rydym wedi'u datblygu yma yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i ddarparu arlwy yn benodol ar gyfer Cymru hefyd.

Rydym yn croesawu cynigion i ailwampio'r rhaglenni newyddion yn ôl anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn falch o glywed y BBC yn cydnabod yr effaith y mae newyddion ar-lein wedi'i chael ar y diwydiant papur newydd a'i chynigion i fuddsoddi mewn newyddiadura lleol a rhannu adnoddau newyddiadura â darparwyr newyddion eraill. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y BBC yn ymchwilio i opsiynau gwahanol gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys llywodraethau'r gwledydd datganoledig.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ymhellach, yn ogystal â'r ffaith ei bod yn cydnabod bod y rhaglenni Saesneg ar gyfer Cymru wedi lleihau'n gyflymach nag yn un o'r gwledydd eraill, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn yn y Siarter nesaf.

Wrth gwrs, cododd yr Arglwydd Hall nifer o'r materion hyn pan siaradodd yng Nghaerdydd y llynedd, ond amser a ddengys a fydd yna unrhyw welliannau go iawn.

Mae yna rai meysydd pryder gwirioneddol hefyd.

Ar 17 Awst, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at yr Arglwydd Hall i dynnu sylw at y bwlch cyllid cynyddol rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU. Dywedodd hefyd fod angen £30m ychwanegol er mwyn sicrhau rhaglenni sydd wir yn adlewyrchu bywydau pobl Cymru.

Yng nghyd-destun y toriadau y mae BBC Cymru Wales wedi'u dioddef dros y deg mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen £30 miliwn ychwanegol ar gyfer rhaglenni Saesneg yn benodol. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb i £50m. Byddai hyn yn rhoi gorsaf deledu genedlaethol gredadwy i gynulleidfaoedd Cymru a fyddai'n gallu darparu rhaglenni o ansawdd yn Saesneg, gan gynnwys drama, comedi ac efallai gyfraniadau eraill o'r rhwydwaith.

Mae'n bwysig pwysleisio na ddylid brigdorri cyllid a ddyrennir i S4C mewn ymateb i'n galwad am gyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni Saesneg (nac o'r £20m mae BBC Cymru Wales yn ei gael ar gyfer rhaglenni Cymraeg). Rydym yn gwbl ymwybodol o rôl bwysig BBC Cymru Wales o ran darparu rhaglenni Cymraeg, a dylai hyn barhau wrth gwrs.

Mae'n destun pryder bod y cynigion a gyhoeddwyd gan y BBC yn syrthio'n brin iawn o hyn. Byddem yn cwestiynu sut gall y BBC gyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth i wella a buddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer y gwledydd gwahanol – gan gynnwys gwasanaethau adloniant, addysg a newyddion digidol ar gyfer pob gwlad – a hithau wedi diystyru cynyddu unrhyw wariant net ac wedi ymrwymo i warchod cyllid y gwledydd dim ond i'r graddau y caiff ei dorri'n llai na meysydd eraill. Rydym yn derbyn bod y BBC mewn sefyllfa anodd yn sgil toriadau yn ei chyllideb, ond nid yw'r cynigion hyn ond yn codi mwy o gwestiynau ynghylch ei harlwy yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir mewn trafodaethau gyda Gweithrediaeth y BBC yng Nghaerdydd ac yn Llundain nad yw'r ffaith bod Caerdydd yn datblygu'n ganolfan gynyddol bwysig ar gyfer cynyrchiadau'r rhwydwaith yn cyfiawnhau lleihau buddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau lleol. Dylai fod yna ymrwymiad clir i warchod a chryfhau'r gwasanaethau craidd sy'n targedu gwylwyr a gwrandawyr Cymru – yn y ddwy iaith, ond yn enwedig yn Saesneg, lle gwelwyd lleihad amlwg (17%) dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o ran rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill. Rydym yn sylweddoli bod BBC Cymru Wales wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth ariannol i'w rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Fodd bynnag, mae'n drueni nad yw BBC Cymru Wales yn cynhyrchu unrhyw ddramâu na chomedïau Saesneg yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru bellach – yn enwedig o ystyried ei henw da o ran cynyrchiadau teledu ar y lefel uchaf, yn y DU ac yn rhyngwladol, diolch i lwyddiant Doctor Who, Casualty, Wizards vs Aliens ac eraill.

Dylai gweledigaeth gorfforaethol y BBC gwmpasu'r cyfraniad y gall y BBC yng Nghymru ei wneud i gynnyrch creadigol y Gorfforaeth ar gyfer y DU gyfan. Mae datblygu BBC Cymru Wales yn ganolfan gynhyrchu bwysig ar gyfer

drama, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, wedi tynnu sylw at y posibiliadau yn hyn o beth. Mae llwyddiant y cynyrchiadau uchod, ymhlith eraill, yn tanlinellu'r ffaith bod gan Gymru wir botensial fel lleoliad cynhyrchu. Fodd bynnag, er ein bod yn gwerthfawrogi presenoldeb drama'r BBC yma a'r manteision sy'n dod yn ei sgil, nid yw mor ddiogel ag y byddai pe bai gan y BBC ganolfan gomisiynu yng Nghymru hefyd. Mae hwn yn rhywbeth rydym yn gobeithio ymchwilio ymhellach iddo.

Rydym yn croesawu'r bwriad i gryfhau cynyrchiadau'r rhwydwaith yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill y DU. Daw hyn â manteision creadigol yn ogystal ag economaidd i'r BBC gyfan. Croesawyd ymrwymiad y BBC gennym i gyrraedd y targed o 17% ar gyfer rhaglenni teledu ar gyfer y gwledydd gwahanol yn gynharach na 2016. Rydym yn disgwyl y dylai o leiaf 5% o gynyrchiadau'r rhwydwaith ddeillio o Gymru, o gymysgedd o gynyrchiadau mewnol ac annibynnol – a dylid ystyried hyn yn fan cychwyn yn hytrach nag yn darged ar gyfer creadigrwydd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'r BBC wrth iddi barhau i adeiladu ar ei llwyddiannau yng Nghymru, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd a diwylliannol a fydd yn codi yn sgil datblygu ymhellach gynyrchiadau drama a'r rhwydwaith yng Nghymru.

*Radio*

Fel y mae rhaglenni teledu BBC Cymru Wales yn bwysig, rydym yn cydnabod y rolau sy'n dal i fod gan Radio Wales a Radio Cymru i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer dinasyddion Cymru.

Mae gan y gorsafoedd radio hyn rôl hollbwysig i sicrhau bod dinasyddion Cymru yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am y penderfyniadau polisi allweddol a wneir gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y ddau wasanaeth i gyfuno straeon newyddion lleol a rhyngwladol. Mae hyn yn tanlinellu natur unigryw y gwasanaethau newyddion a ddarperir gan y ddau wasanaeth radio cenedlaethol a gwerth y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer gwrandawyr.

Fel Llywodraeth, rydym yn bryderus ynghylch y ffaith bod ystod y rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn culhau. Rydym felly yn croesawu'r ffaith bod Radio Wales a Radio Cymru yn parhau i ddarparu ystod cynhwysfawr o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Yn wir, rydym yn ystyried ystod y rhaglenni a ddarperir gan y ddau wasanaeth fel elfennau canolog o'r gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir ganddynt. Yn ein barn ni, dylid cynnal yr ystod hwnnw a'i gryfhau lle bo modd.

Mae gan radio gyfraniad hollbwysig o ran darparu llwyfan ar gyfer talent Cymru, er mwyn tynnu sylw ato a'i ddatblygu. Mae hyn yn berthnasol i'r gerddoriaeth ar y ddau wasanaeth ac, yn yr un modd, i awduron ac actorion. Mae i radio'r cryfder penodol o ganiatáu i bobl adrodd eu hanesion eu hunain.

Mae gan y BBC draddodiad hir o ddarparu rhaglenni chwaraeon gwych ar y radio.

Mae'n hanfodol bod dau wasanaeth radio Cymru yn parhau i ymdrechu i adlewyrchu darlun mor eang â phosibl o fywyd yng Nghymru. Hyd yn oed wrth i lwyfannau digidol newydd ymledu, nid ydym yn diystyru rôl dra gwerthfawr radio yn hyn o beth. Mae Radio Cymru a Radio Wales yn parhau i ddarparu ystod o raglenni ar gyfer gwrandawyr sy'n lleihau ar y teledu yng Nghymru. Mae ein profiad o'r byd teledu yn dangos mor gyflym y gall sefyllfa newid.

Fel yn achos teledu, rydym yn pryderu bod Cymru'n benodol yn parhau i gael ei thangynrychioli ar brif rwydweithiau radio'r DU. Ymddengys mai ychydig iawn o'r rhaglenni a gomisiynir gan y BBC ar gyfer radio rhwydwaith y DU sy'n dod o Gymru. Hoffem weld mwy yn cael ei gomisiynu gan BBC Cymru Wales; dylai'r BBC osod targedau mwy ymestynnol yn hyn o beth.

Er bod gan wasanaethau radio cenedlaethol yng Nghymru rolau pwysig i'w chwarae fel ffynonellau gwybodaeth ac adloniant, mae Radio Cymru yn chwarae rôl ychwanegol o ran sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu. Yn hyn o beth, mae ei rôl yn fwy na rôl darlledu. Rydym yn hynod siomedig felly bod y ddogfen ymgynghori yn tynnu sylw at y canlynol, gan gwestiynu gwerth gwasanaethau iaith brodorol ar sail termau ariannol yn unig heb ystyried eu pwysigrwydd diwylliannol neu gymdeithasol:

*"…Ac mae cost yn gysylltiedig a'r gwasanaethau hyn; mae'r gost fesul awr o gynhyrchu cynnwys radio trwy gyfrwng ieithoedd brodorol yn yr Alban a Chymru gryn dipyn yn uwch na chost cynhyrchu cynnwys cyfrwng Saesneg, sy'n codi cwestiynau ynghylch gwerth am arian."*

Rydym yn croesawu'r bartneriaeth gryfach sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf rhwng Radio Cymru ac S4C. Dim ond un gwasanaeth radio Cymraeg ac un gwasanaeth teledu Cymraeg sydd yna o hyd. Mae'n hollbwysig felly bod y bartneriaeth rhwng y ddau wasanaeth hwn mor greadigol a chynhyrchiol â phosibl.

## ***S4C***

Mae'n hollbwysig bod S4C yn cael digon o gyllid, yn ogystal ag annibyniaeth i olygu a rheoli, er mwyn iddi allu parhau i wasanaethu cynulleidfa Cymru a pharhau i chwarae rôl hollbwysig yn cefnogi'r Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Dros gyfnod o 30 mlynedd, mae S4C wedi chwarae rôl flaenllaw yn hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg. Mae ganddi rôl allweddol yn dal i fod i sicrhau bod yr iaith yn parhau i ffynnu. Mae'n helpu i sefydlu'r Gymraeg fel rhan fywiog o fywyd bob dydd yng Nghymru, ac mae ei gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad pwysig i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Drwy ei rhaglenni ffeithiol, hanesyddol a diwylliannol, mae S4C yn cyfoethogi cymdeithas Cymru. Mae ganddi ran bwysig i'w chwarae er mwyn cyflawni'r

weledigaeth a amlinellir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Mae ein diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant ac yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'n heconomi. Mae polisi comisiynu S4C wedi cyfrannu'n fawr at y twf yn sector y cyfryngau annibynnol yng Ngymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bellach mae gan Gymru nifer o gwmnïau cynhyrchu annibynnol llwyddiannus iawn sy'n creu cynnwys ar gyfer sawl sianel a rhwydwaith, ond mae S4C wedi bod yn ganolog i'w datblygiad cychwynnol.

Roedd sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2015 yn destun pryder mawr inni felly, pan ddywedodd ei bod yn "rhesymol" y dylai S4C wneud yr un math o arbedion ag y mae gofyn i'r BBC eu gwneud.

Ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n gyson wrth Lywodraeth y DU ei phryder am yr effaith y caiff mwy o doriadau cyllid ar S4C.

Mae S4C wedi ei chael ei hun mewn sefyllfa wahanol iawn ers Adolygiad 2010 o Wariant. Bellach, mae 90% o gyllid S4C yn dod o ffi'r drwydded. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y cyllid hwn wedi'i warantu tan ddiwedd setliad presennol ffi'r drwydded yn 2017. Fodd bynnag, nid yw S4C wedi derbyn cadarnhad eto o'r cyfraniad a ddisgwylir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer 2016-17. Mae'n hollbwysig cytuno ar hyn cyn gynted â phosibl.

Ers 2010, mae'r cyllid ar gyfer y sianel wedi lleihau 36%; mae'n anochel y bydd hyn yn effeithio ar yr arlwy sydd ar gael i wylwyr. Rydym wedi nodi'n gyson na ddylid cwtogi ymhellach ar gyllideb S4C. Daw pob cytundeb ffurfiol ynghylch cyllid S4C i ben yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae'r ansicrwydd hwn ynghylch cyllid yn ei gwneud yn anodd iawn cynllunio i'r dyfodol, i S4C ac i'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gyflenwyr allweddol i S4C yng Nghymru. Rydym yn dal i bryderu'n fawr am sefyllfa ariannol S4C a byddwn yn parhau i godi'r mater gyda Llywodraeth y DU. Fel yr amlinellir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011, mae'n ddyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod S4C yn derbyn digon o gyllid.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyhoeddiad yn 2013 bod cytundeb chwe blynedd wedi'i lunio rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C ar drefniadau cyllido, llywodraethu ac atebolrwydd S4C. Mae'n bwysig cofio hefyd bod y cytundeb yn diogelu annibyniaeth S4C o ran golygu a rheoli. Mae'r cydweithrediad mwy rhwng y BBC ac S4C yn galondid inni – a hefyd y ffaith bod y Cytundeb Gweithredu yn llawer ehangach na'r trefniadau cyllid ac atebolrwydd yn unig, a'i fod yn cynnwys partneriaeth greadigol ar bob lefel o fewn y BBC ac S4C.

Mae'n hollbwysig bod S4C a'r BBC yn cydweithio i ddatblygu dyfodol cynaliadwy ar gyfer darlledu drwy'r Gymraeg. Oherwydd hollbwysigrwydd rôl

S4C, rydym hefyd o'r farn y dylai'r bartneriaeth fod yn destun adolygiad annibynnol, ac y dylai pob un o bleidiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno arno. Amlinellir yr ymrwymiad i geisio cytundeb ar gyfer adolygiad o'r fath yn ein Rhaglen Lywodraethu.

**Rhyngwladol**

Er mai ei chenhadaeth ddylai fod yn flaenoriaeth i'r BBC, fel Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus, sef darparu gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl ar draws y DU, mae llwyddiant BBC Worldwide wedi bod yn bwysig wrth hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a datblygu gyrfa ar gyfer y gweithlu yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau, gan gynnwys Cymru. Mae'r BBC ei hun yn teimlo effaith hyn a chynhyrchwyr annibynnol rhaglenni a gomisiynir gan y BBC sydd, drwy BBC Worldwide, yn gallu manteisio ar waith marchnata byd-eang y BBC. Mae hyn yn eu rhoi mewn gwell sefyllfa hefyd i gystadlu am gomisiynau sy'n annibynnol ar y BBC. Yn ogystal, mae BBC Worldwide yn darparu refeniw y gall y BBC ei ailfuddsoddi yn arlwy a gwasanaethau'r DU, er y dylid ystyried hwn fel rhywbeth sy'n ychwanegol at gyllid craidd ffi'r drwydded – yn hytrach na chyllid sy'n cymryd ei le.

Fe ddown yn ôl at gynigion ar gyfer newid dull y BBC o gomisiynu cynyrchiadau yn nes ymlaen yn yr ymateb hwn, gan y byddai'r rhain yn sicr o gael effaith ar y cyfleoedd i sector cynhyrchu annibynnol Cymru gydweithio â'r BBC yn y dyfodol.

**C8 A yw'r BBC yn cynnig y gymysgedd briodol o genres ar draws ei gwasanaethau?**

Gweler ein sylwadau am sut y dylai'r BBC fynd ati i ddarparu portffolio cytbwys o dan G2 ar wasanaethu pawb. Hefyd, rydym eisoes wedi trafod pwysigrwydd darparu rhaglenni newyddion ac nad ydynt yn rhaglenni newyddion yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ein hymateb i G7.

O ystyried y bwlch yn y gwasanaethau Saesneg a ddarperir yng Nghymru, rhywbeth sydd wedi'i gydnabod ers tro gan y BBC, mae'n hanfodol dod o hyd i gyllid priodol er mwyn caniatáu i BBC Cymru Wales ddarparu cymysgedd briodol o genres yn ei rhaglenni ar gyfer Cymru yng nghyfnod y Siarter nesaf, yn Gymraeg ac yn Saesneg – heb effeithio ar gyllideb bresennol BBC Cymru Wales ar gyfer rhaglenni Cymraeg na chyllid ar gyfer S4C.

**C9 A yw safon cynnwys y BBC yn ddigon uchel, ac a yw'n ddigon gwahanol i gynnwys darlledwyr eraill? Pa ddiwygiadau allai ei wella?**

Gweler ein sylwadau o dan G2 a Ch4 am sut y dylai'r BBC ddarparu portffolio o ansawdd, gan roi ystyriaeth i weithgareddau darlledwyr eraill, ond gan gofio hefyd yr angen iddi gynnal ei phroffil ymhlith cynulleidfaoedd ar draws y DU er mwyn parhau i fod yn effeithiol fel prif Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn

gyffredinol, rydym yn hapus bod y BBC yn ymdrechu i gynnig arlwy sydd o ansawdd uchel ac yn unigryw – a lle bo'n darparu cynnwys ar ffurf genres sy'n cael eu darparu gan ddarlledwyr eraill hefyd, bod rheswm da dros wneud, ac un o effeithiau gweithgarwch y BBC yw codi lefel ansawdd ar draws y farchnad fel rheol.

Yn ein hymateb i G2, cytunwyd y dylid datblygu set glir o werthoedd ar gyfer y BBC. Dylai'r gwerthoedd hyn, ynghyd ag ymrwymiad newydd i ddibenion cyhoeddus y BBC, fod yn sail i'r gwaith o greu canllawiau ar gyfer datblygu cynnwys a fyddai'n berthnasol i holl wasanaethau'r BBC. Byddai'r canllawiau hyn yn sicrhau bod prif ddatganiadau'r BBC am ei delfrydau a'i diben yn cael ystyriaeth ddyledus gan gomisiynwyr a chynhyrchwyr rhaglenni'r BBC, a dylent wella ymhellach ansawdd rhaglenni'r BBC, a'u gwneud yn fwy unigryw ac amrywiol. Wrth i'r gwasanaethau esblygu, dylid eu hadolygu o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod y Siarter er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

**C10 Sut ddylai'r system o gynhyrchu cynnwys gael ei gwella trwy ddiwygio cwotâu neu ddewisiadau mwy radical?**

Rydym yn falch bod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cytuno y bydd sut y bydd cynnwys y BBC ei gomisiynu a'i gynhyrchu, gan gynnwys yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau, yn ystyriaeth allweddol yn ystod yr Adolygiad o'r Siarter. Mae edrych ar y ffordd y mae'r BBC yn penderfynu sut – a ble – y mae'n gwario £2.4 biliwn ar gynnwys yn hollbwysig o'r broses hon.

O ran polisi ac yn ymarferol, rhaid i'r BBC fabwysiadu ffordd fwy cynrychioladol o gomisiynu a chynhyrchu o'r gwledydd a'r rhanbarthau, ac ar eu cyfer. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifoldeb ar y BBC i nodi a datblygu talent ar draws pob maes cynhyrchu ac i gefnogi, datblygu a chyflawni gwaith cynhyrchu ledled holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n ofalus ag Ofcom y dylid rhoi peth ystyriaeth i'r berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol, o ystyried y cydgrynhoi a'r caffael sy'n digwydd. Fodd bynnag, byddem yn wyliadwrus o unrhyw newidiadau i'r cwotâu a allai ganiatáu symud gwaith cynhyrchu cynnwys mewnol y BBC a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill – a'r gwaith o gomisiynu cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – o'r gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau yn ôl i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.

Darperir tystiolaeth yn y papur ymgynghori y dylid gwneud mwy i sicrhau y rhennir gweithgarwch cynhyrchu'n ehangach ac yn decach o Lundain i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Yn hyn o beth, nodir y buddion economaidd a'r effaith gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau ar gyfer y sector. O gofio hyn, rhaid i unrhyw newidiadau i gwotâu – p'un ai o ran cynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau, neu hyd y cyfnod cystadlu creadigol – warchod a chynyddu'r symudiad cyson tuag at gynyddu

faint o gynhyrchu a wneir yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw newidiadau i'r Telerau Masnach cyfredol, sy'n nodi sut y mae'r BBC a darlledwyr eraill yn gweithio gyda chynhyrchwyr annibynnol, warchod buddiannau pobl a busnesau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Yn seiliedig ar lefel y manyldeb yn y ddogfen ymgynghori, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai cwtogi'n sylweddol ar gynhyrchu mewnol y BBC yn fuddiol ar y cyfan. Nid ydym yn synnu mai dim ond lleiafrif o gomisiynau'r cyfnod cystadlu creadigol y mae tîm cynhyrchu mewnol y BBC wedi'u hennill yn ystod cyfnod y Siarter presennol. Mae'n debyg bod y rhan fwyaf o'r rhain yn gynyrchiadau untro neu un gyfres; ac y byddai cwmnïau cynhyrchu annibynnol, sy'n fwy hyblyg ac sydd â llai o orbenion, yn gallu cystadlu'n well am y rhain. Ar y llaw arall, mae'n debyg nad oedd y comisiynau mwy hirdymor a chomisiynau a ailadroddir, a gyflawnir yn fewnol gan y BBC o bosibl gan fod ganddi'r capasiti a'r seilwaith i gyflawni hyn yn effeithiol, yn rhan o'r cyfnod cystadlu creadigol. Os yw hyn yn wir, yna nid yw canlyniadau'r cyfnod cystadlu creadigol yn arddangos bod cynyrchiadau mewnol y BBC yn darparu gwerth gwael am arian i dalwyr y drwydded o'u cymharu â chwmnïau cynhyrchu annibynnol; yn hytrach, mae'n dangos y dylid sicrhau cyfleoedd priodol i'r ddau dros gyfnod y Siarter nesaf.

Efallai y gallai peth cwtogi ar gynyrchiadau mewnol fod yn fuddiol, ond mae angen mwy o dystiolaeth cyn dod i gasgliad – gan gynnwys, ac mae hyn yn hollbwysig, dystiolaeth ynghylch effaith bosibl y gallai cwtogi o'r fath ei chael ar ganolfannau cynhyrchu'r BBC yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau, megis stiwdios Porth y Rhath ym Mae Caerdydd.

Mae manylion cynnig y BBC ynghylch stiwdios, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, yn peri pryder penodol inni. Nid yw Llywodraeth Cymru o blaid cael gwared ar gwotâu ar gyfer cynhyrchu annibynnol na chynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, fel a nodir uchod; yn wir, credwn fod angen ailystyried y rhain a'u cryfhau ymhellach.

Rhannwn y pryderon a nodir yn y ddogfen ymgynghori y gallai trawsnewid gweithrediadau cynhyrchu'r BBC yn rhyw fath o is-gwmni masnachol wyrdroi'r farchnad yn sylweddol ac y gallai effeithio ar gystadleugarwch y sector cynhyrchu annibynnol (gan gynnwys cwmnïau yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau) a pheri pryderon mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol. Yn olaf, mae'r cynnig hwn yn cynnwys y posibilrwydd y gallai'r BBC ddefnyddio refeniw ffi'r drwydded i ddatblygu cynigion ar gyfer cynyrchiadau a gomisiynir gan ddarlledwyr masnachol, a hynny heb fod yn siŵr y byddent yn llwyddo. Yn ein barn ni, fel mater o egwyddor, dylai refeniw ffi'r drwydded gael ei fuddsoddi yng nghynnwys a gwasanaethau'r BBC er budd dinasyddion y Deyrnas Unedig yn hytrach na chael ei gyfeirio fel arall – ac yn sicr ni ddylai gael ei ddefnyddio ar sail risg fasnachol heb warant o adenillion i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae Llywodraeth Cymru, felly, o'r farn y dylid cadw'r system gwotâu. Fodd bynnag, rydym yn fodlon i ystyriaeth bellach gael ei rhoi o ran a ddylid newid y

cwotâu eu hunain. Rydym hefyd o'r farn na ddylid bwrw ymlaen â chynnig stiwdios y BBC.

**Cyllido'r BBC**

### C11 Sut ddylem ni dalu am y BBC a sut ddylid moderneiddio ffi'r drwydded?

O ystyried ei sylwadau o dan G2 ynghylch pwysigrwydd mynediad i bawb at gynnwys a gwasanaethau'r BBC, byddem yn gwrthwynebu unrhyw ffurf ar fodel yn seiliedig ar danysgrifio ar gyfer cyllido yn y dyfodol. Byddai hynny'n ei gwneud hi'n anoddach i rai pobl gael mynediad at yr ystod lawn o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Y tair colofn yn yr hyn a nododd yr Arglwydd Reith fel cylch gwaith Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yw 'hysbysu, addysgu a diddanu' - a rhoddir yr un pwys ar bob un, sydd yn hollol briodol. Felly, mae'r syniad y dylem wahaniaethu rhwng gwasanaethau 'craidd' y BBC a'i gwasanaethau 'premiwm' - gan dalu am y rhai premiwm drwy danysgrifiad a fyddai'n ychwanegol i ffi'r drwydded - yn hollol groes i'r cysyniad o wasanaeth cyhoeddus i bawb.

Gan dderbyn nad yw modelau eraill, megis refeniw o hysbysebu a threthu cyffredinol yn briodol, mae hyn yn gadael ffi'r drwydded neu ardoll aelwyd fel yr unig ddau opsiwn realistig y gellid eu hystyried yn y tymor hwy. O ystyried popeth, credwn mai cadw ffi'r drwydded yw'r opsiwn mwyaf call ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf. Cytunwn y dylid cau'r bwlch sy'n bodoli o ran yr iPlayer a byddwn yn barod i drafod yr opsiynau ar gyfer gwneud hyn yn fanylach yn y misoedd i ddod. Gallai ardoll aelwyd, un fyddai wedi'i ddylunio'n briodol, fod yn briodol yn y tymor hwy, ond o ystyried yr amser sydd ei angen i ddatblygu'r fath beth a deddfu ar ei gyfer, ni fyddai'n ymarferol ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf.

### C12 A ddylai lefel y cyllid ar gyfer rhai gwasanaethau neu raglenni penodol gael ei warchod? A ddylai rhywfaint o gyllid fod ar gael i ddarparwyr eraill er mwyn darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus?

Mae ein hatebion i G2, C4 a Ch9 uchod yn berthnasol yma.

Fel yr ydym eisoes wedi pwysleisio, mae gwarchod a chynyddu'r cyllid sydd ar gael i BBC Cymru Wales ac S4C, ar gyfer cyflawni rhaglenni i Gymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn hollbwysig.

Rydym eisoes wedi nodi ein barn y dylai ffi'r drwydded gael ei buddsoddi, fel mater o egwyddor, yng nghynnwys a gwasanaethau'r BBC er budd dinasyddion y Deyrnas Unedig, yn hytrach na chael ei chyfeirio fel arall. Fel y trafodir uchod, ni chredwn fod y BBC yn gwthio cystadleuaeth fasnachol allan - ac felly nid oes angen ailgyfeirio cyllid ffi'r drwydded i ddarlledwyr eraill, ac nid oes cyfiawnhad dros wneud hynny. Hefyd, nodom, pan fo'r BBC yn darparu cynnwys mewn genres sydd hefyd yn cael eu gwasanaethu gan

ddarlledwyr eraill, fod rheswm da dros wneud hynny a bod y gweithgarwch hwnnw fel arfer yn cyfrannu at godi safonau. Byddai ailgyfeirio refeniw ffi'r drwydded drwy ryw ffurf ar gyllid y cystedlir amdano yn lleihau effaith gadarnhaol gweithgarwch y BBC ar draws y farchnad ac, yn bwysicach fyth, yn gwanhau gallu'r BBC i gyflawni ei phrif dasg fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig. At hynny, byddai system o'i math yn anodd ei gweinyddu. Derbyniwn yn llwyr y ddadl y byddai'r baich ychwanegol o ran atebolrwydd y byddai'n rhaid i ddarlledwyr eraill a allai ystyried cystadlu am y cyllid hwn gydymffurfio ag ef yn golygu mai lefelau isel iawn o alw fyddai y tu allan i'r BBC.

**C13 A yw'r BBC wedi bod yn gwneud digon i sicrhau gwerth am arian? Sut allai fynd ymhellach?**

Mae'r gofyniad ar BBC Cymru Wales i ddod o hyd i arbedion cyllidebol o 16% dros y pedair blynedd o 2011 ymlaen, fel rhan o gynigion *Delivering Quality First,* yn fygythiad anghymesur o bosibl i wasanaethau lleol y BBC yng Nghymru. Mae'r BBC yn parhau i bryderu'n fawr ynghylch y toriadau i gyllideb BBC Cymru Wales. Mae hefyd yn hanfodol fod gwasanaeth cenedlaethol, ar y teledu neu'r radio, yn golygu mwy na dim ond newyddion a materion cyfoes. Mae'r BBC wastad wedi chwarae rôl hanfodol o ran adlewyrchu ac atgyfnerthu diwylliant Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n hanfodol fod y BBC yn parhau i gynhyrchu a rhaglenni o safon a rhoi sylw dyledus i wleidyddiaeth, er gwaethaf y pryderon ynghylch effaith toriadau i'r gyllideb ar gynnwys gwleidyddol BBC Cymru Wales.

Felly, ni ddylai unrhyw arbedion effeithiolrwydd pellach ddod ar draul Cymru, na'r gwledydd na'r rhanbarthau eraill, y mae hyn wedi effeithio arnynt yn yr un modd.

Derbyniwn fod yr enghreifftiau a nodir yn y ddogfen ymgynghori o brosiectau'r BBC nad ydynt wedi darparu gwerth da am arian i dalwyr ffi'r drwydded yn rhai dilys. Nodwn hefyd sylwadau diweddar Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bellach mewn sefyllfa lle mae ganddi fynediad llawn at yr wybodaeth sydd angen arni i gynnal adolygiadau o safon[4]. Dylai'r ffaith bod y Swyddfa Archwilio mewn sefyllfa gryfach i asesu a chreu darlun o effaith ariannol gweithgareddau'r BBC ysgogi ffocws newydd ar werth am arian; yn yr un modd, dylai set newydd o ddibenion a gwerthoedd cyhoeddus, a'r rheiny wedi'u diffinio'n well, alluogi'r BBC i wneud gwell penderfyniadau i sicrhau gwerth am arian. Byddai hyn yn cael ei ategu ymhellach gan linellau cliriach o awdurdod rheoli a rheoleiddio, synnwyr cryfach o annibyniaeth wirioneddol ar Lywodraeth, gwell atebolrwydd i'r cyhoedd a chraffu gwell ar y BBC gan gynrychiolwyr etholedig o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Down yn ôl at y themâu hyn yng Nghwestiynau 15 i 20.

**C14 Sut ddylai gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys BBC Worldwide, gael eu diwygio?**

---

[4] Yn ystod digwyddiad Ymddiriedolaeth y BBC, ***"Tomorrow's BBC: Who Governs?"*****, ym Mhrifysgol San Steffan yn Llundain ar** 1 Hydref 2015.

Rydym eisoes wedi cael trafodaeth eithaf hir am BBC Worldwide a gweithgareddau masnachol y BBC yn ein hatebion i G7 (lle rydym yn edrych ar weithgarwch rhyngwladol) a Ch10. Ymhellach at y sylwadau hynny, hoffem ychwanegu nad ydym wedi'n hargyhoeddi, ar hyn o bryd, y byddai preifateiddio BBC Worldwide yn llawn neu'n rhannol yn briodol. Gallai'r cyfyngiadau benthyca sydd ar BBC Worldwide yn sgil ei statws fel corff cyhoeddus gyfyngu ar ei allu i ddatblygu ymhellach rai marchnadoedd tramor, ond, serch hynny, mae wedi profi cryn lwyddiant - a hynny heb risg ormodol i gyllid cyhoeddus y BBC. Yn bwysicach, nid ei gwerth masnachol mewn marchnadoedd rhyngwladol ddylai fod yr unig sail, nac yn wir yn sail bennaf, i sut yr ystyrir gwerth gwirioneddol allbwn gwasanaeth cyhoeddus y BBC i dalwyr ffi'r drwydded yn y Deyrnas Unedig. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, nid gwneud arian yw diben y BBC. Ei diben yw hysbysu, addysgu, a diddanu dinasyddion y Deyrnas Unedig.

**Llywodraethu a Rheoleiddio'r BBC**

Darperir ateb cyfun isod i'r pedwar cwestiwn sy'n dilyn. Deallwn y bydd Syr David Clementi yn ystyried ymatebion i'r adran hon o'r ymgynghoriad fel un o gamau cyntaf o'i adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu'r BBC. Mae Llywodraeth Cymru, sy'n cynrychioli buddiannau pobl Cymru, yn fwy na pharod i drafod y pwyntiau a wneir isod gyda Syr David a'i dîm.

**C15 Sut ddylai model llywodraethu a rheoleiddio presennol y BBC gael ei ddiwygio?**

**C16 Sut ddylai'r Profion Gwerth Cyhoeddus a'r Trwyddedau Gwasanaethau gael eu diwygio a phwy ddylai fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau hyn?**

**C17 Sut all y BBC ymgysylltu'n well â thalwyr ffi'r drwydded a'r diwydiant, yn cynnwys trwy gyfrwng ymchwil, tryloywder a thrafod cwynion?**

**C18 Sut ddylai'r berthynas rhwng y Senedd, y Llywodraeth, Ofcom, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r BBC weithio? Pa strwythurau atebolrwydd a disgwyliadau ynghylch hynny, yn cynnwys tryloywder ariannol a rheolaethau ar wariant, a ddylai fod yn gymwys?**

O ran y dewisiadau ar gyfer diwygio a nodir yn y ddogfen ymgynghori (hynny yw, diwygio Ymddiriedolaeth y BBC, creu bwrdd unedol ar gyfer y BBC gydag Ofcom yn cyflawni'r rôl reoleiddiol), byddai'n well gennym y dewis o fwrdd unedol a rheoleiddiwr annibynnol (hynny yw, y model a elwir yn 'OfBeeb'). Derbyniwn nad yw'r model cyfredol o Ymddiriedolaeth a Gweithrediaeth, er bod ei fwriad yn un da, yn darparu llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd digon clir a bod tensiwn sylfaenol yn y ffaith fod gofyn i'r Ymddiriedolaeth weithredu fel corff rheoleiddiol yn ogystal â bod yn rhan o'r BBC. Mae dadl o blaid newid, ond nid yw heb ei risgiau a rhaid ymdrin â hyn yn ofalus, gan fanteisio

i’r eithaf ar yr asedau sydd eisoes yn eu lle, yn hytrach na chael gwared arnynt a dechrau o’r dechrau heb ystyriaeth fanwl.

Cytunwn y byddai symud y swyddogaeth reoleiddio i gorff allanol, yn gyfan gwbl ar wahân i’r BBC o ran strwythur a theitl, yn cael gwared ar lawer o’r feirniadaeth a wneir o Ymddiriedolaeth y BBC o ran y gwrthdaro o fod yn rheoleiddiwr ac yn eiriolwr. I fod yn glir, ailadroddwn ein safbwynt na ddylid cymryd haen o gyllid y cystedlir amdano o ffi’r drwydded; felly ni fyddai gan y rheoleiddiwr newydd unrhyw rôl o ran dyfarnu cyllid y cystedlir amdano, i’r BBC nac i ddarlledwyr eraill.

Rydym hefyd yn cytuno y dylid dod â chyfrifoldebau strategol a gweithredol allweddol ynghyd mewn bwrdd unedol, gyda llinellau clir iawn o atebolrwydd ac aelodaeth anweithredol gref a allai sicrhau y cynrychiolir buddiannau cyhoedd Prydain yn gywir. Fodd bynnag, yn wahanol i drefniadau’r Bwrdd Gweithredol cyfredol – y gall ei Gadeirydd fod yn aelod anweithredol neu’n Gyfarwyddwr Cyffredinol (er, yn ymarferol, mai’r Cyfarwyddwr Cyffredinol ydoedd bob tro) – dylai Cadeirydd y bwrdd unedol fod yn aelod anweithredol bob amser. Mae’n hanfodol fod y Cadeirydd yn cynrychioli – ac yn cael ei weld yn cynrychioli – buddiannau talwyr ffi’r drwydded, yn hytrach na buddiannau corfforaethol y BBC ei hun, gan y byddai’r bwrdd newydd i bob pwrpas yn cymryd yr awenau gan yr Ymddiriedolaeth fel llais a chorff penderfynu goruchaf y BBC.

Cydnabyddwn y gall rheoleiddiwr ag iddo un diben fod yn anodd ei sefydlu mewn ffordd nad yw’n arwain at fod yn or-ddibynnol ar y sefydliad y mae’n ei reoleiddio, neu heb iddo wrthdaro’n ormodol â’r sefydliad hwnnw. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oes angen dechrau o’r dechrau. Er y byddai Ymddiriedolaeth y BBC yn cael ei ddirwyn i ben os eir ymlaen â’r model hwn, gyda’i swyddogaethau penderfynu’n trosglwyddo i’r bwrdd unedol, mae’n siŵr y gellid cadw llawer iawn o ran pobl, strwythur trefniadol ac asedau corfforol neu ddeallusol - gan roi pwrpas newydd iddynt fel rhan o’r rheoleiddiwr newydd. Er y byddai gan y Bwrdd rôl wahanol, y’i diffinnir yn glir ac er y byddai ar wahân i’r BBC ei hun, byddai profiad staff sydd wedi profi methiannau ac (yn fwy diweddar) llwyddiannau llywodraethiant y BBC o dan y trefniadau cyfredol yn ddi-os yn help i sicrhau y symudir i’r strwythurau newydd yn llyfn ac yn gost-effeithiol - byddai hyn yn well na chael gwared ar bob manylyn o’r Ymddiriedolaeth dros nos.

Yn ogystal, rhannwn bryderon Ofcom, fel y’u mynegwyd gan y Prif Weithredwr, Sharon White, yn ystod ei haraith i’r Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghaergrawnt ym mis Medi eleni, ynghylch priodoldeb rhoi penderfyniadau’n ymwneud â chwmpas a chynnwys y BBC i Ofcom ac ynghylch y cynnydd y byddai angen ei wneud i gapasiti gweithredu Ofcom pe bai i gael cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol mewn perthynas â rheoleiddio’r BBC. Rhannwn, hefyd, y pryder a nodir yn y ddogfen ymgynghori y gallai hyn arwain at wneud Ofcom yn rhy bwerus, gan ehangu ei gylch gwaith a’i wariant, sydd eisoes yn fawr. Rheoleiddiwr annibynnol fyddai yn y sefyllfa orau i gyflawni’r swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio sydd ar hyn o bryd

yn cael eu gwneud gan yr Ymddiriedolaeth, heb i gyfrifoldebau ehangach dynnu ei sylw.

Pe bai'r model penodol yr ydym wedi'i ddisgrifio uchod yn cael ei fabwysiadu, gan gynnwys Cadeirydd anweithredol ar gyfer y bwrdd unedol, yna byddem yn gyffyrddus i benderfyniadau ynghylch gwasanaethau fod yn nwylo Bwrdd y BBC. Fel yn awr, byddai Ofcom yn arwain ar asesiadau effaith ar y farchnad, ac y rhain fyddai'n sail i ystyriaeth y bwrdd o werth cyhoeddus unrhyw gynnig, gan edrych ar y BBC yn ei chyfanrwydd a'r rôl y dylai'r gwasanaeth hwnnw ei chwarae ynddi, lle bo hynny'n briodol.

Nid yw Ofcom mewn sefyllfa dda i ddyfarnu ar brofion gwerth cyhoeddus i'r BBC oherwydd y ffordd y caiff ei gyllido. Mae Ofcom yn derbyn ffioedd gan y darlledwyr masnachol am reoleiddio rhwydweithiau darlledu a chyfathrebiadau yn ogystal â chymorth grant gan y Llywodraeth. Oherwydd hyn, byddai'n rhaid iddo frwydro yn erbyn y canfyddiad y gallai geisio, wrth reddf, gwarchod y darlledwyr masnachol er mwyn diogelu ei refeniw, heb ystyried cryfder unrhyw ddadl gwerth cyhoeddus dros wasanaeth newydd i'r BBC. Hefyd, byddai'n rhaid iddo oresgyn pryderon nad yw'n ddigon annibynnol ar y Llywodraeth i reoleiddio BBC annibynnol. Byddai hyn yn annheg, byddai'n tynnu sylw Ofcom oddi ar ei waith, a byddai'n beryglus hefyd i'r BBC ei hun.

Cytunwn y dylai'r bwrdd unedol gyflawni ymchwil ynghylch barn y gynulleidfa a sicrhau mwy fyth o dryloywder ac effeithiolrwydd o ran delio â chwynion. Fodd bynnag, mae cyfle bellach i ddatblygu strategaeth bellgyrhaeddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd gan ddefnyddio sawl platfform - ac, wrth gwrs, wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach gallai hyn ddod yn broses fwyfwy defnyddiol a syml. Mae rôl ganolog o hyd i gynghorau cynulleidfa neu gynghorau darlledu ledled y Deyrnas Unedig fel rhan o'r strategaeth hon ac mae'n bwysig bod Cymru a'r gwledydd eraill yn cael eu cynrychioli'n llawn. Dylai Cadeiryddion y cynghorau cynulleidfa neu'r cynghorau darlledu fod yn aelodau anweithredol o'r bwrdd unedol, er mwyn iddynt gael llais mewn penderfyniadau ar y lefel uchaf. Mae'r ffaith y gall Ymddiriedolaeth y BBC anwybyddu barn cynghorau cynulleidfa ar hyn o bryd os yw'n dewis gwneud hynny yn wendid mawr yn y trefniadau cyfredol.

Croesawom y cyfeiriadau ym Mhapur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi at gynyddu atebolrwydd darlledwyr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio'n rheolaidd at bwysigrwydd gwella atebolrwydd sefydliadau darlledu'r Deyrnas Unedig i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Rydym felly'n falch fod Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi'u llofnodi gyda'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ffurfioli eu rolau yn yr adolygiad hwn o'r Siarter, ac adolygiadau'r dyfodol, a bod Memoranda tebyg yn cael eu gorffen ar hyn o bryd a fydd yn nodi rolau parhaus i'r Seneddau a'r Cynulliadau datganoledig yn y gwledydd gwahanol yn y gwaith o graffu ar y BBC, a sicrhau ei hatebolrwydd.

Dylai unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu neu reoleiddio'r BBC adlewyrchu realiti llywodraeth ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig. Yn hyn o

beth, dylai bwrdd y rheoleiddiwr newydd gynnwys aelod sy’n gyfrifol am gynrychioli buddiannau pob un o’r gwledydd datganoledig, gan gynnwys Cymru; y Llywodraeth ddatganoledig berthnasol ddylai arwain ar benodi’r cynrychiolydd cenedlaethol hwnnw.

Mae’n bwysig ailadrodd ein barn gref fod y mecanwaith a ddefnyddiwyd i orfodi’r setliad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y BBC – yn dilyn trafodaethau caeedig rhwng y BBC a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, heb unrhyw ymgynghori â’r Llywodraethau datganoledig – yn hollol anfoddhaol. O ganlyniad, mae’r adolygiad hwn o’r Siarter yn cael ei gyflawni ar ôl i’r penderfyniad mwyaf sylfaenol a allai effeithio ar raddfa a chwmpas yr hyn y gallai’r BBC ei gyflawni gael ei wneud.

O dan y trefniadau cyfredol, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i bob pwrpas, yn rhydd i bennu telerau’r BBC heb unrhyw graffu Seneddol nac ymgynghori cyhoeddus. Mae angen dadl yn San Steffan – ond nid oes angen pleidlais. Nid oes unrhyw rôl i’r sefydliadau datganoledig ar draws y Deyrnas Unedig o gwbl. Rhaid i hyn newid. Yn y dyfodol, o ystyried bod cylch gwaith y BBC yn cynnwys y Deyrnas Unedig gyfan ac o gofio ei hamcanion penodol yn y gwledydd gwahanol a’r rhanbarthau, rhaid i unrhyw gynigion o’r math yma gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn destun ymgynghori cyhoeddus, craffu gan bwyllgor yn San Steffan a’r sefydliadau datganoledig ac – yn hollbwysig - rhaid iddynt gael eu cymeradwyo drwy bleidlais yn y Senedd ac ym mhob un o Seneddau a Chynulliadau’r gwledydd.

**C19 A ddylai dull gweithredu presennol Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith 10 mlynedd barhau?**

Rydym yn cytuno y dylai Siarter Frenhinol y BBC bara am ddeg mlynedd o leiaf. Nid ydym yn derbyn bod amserlen fyrrach, dweder pum mlynedd, yn briodol. Mae adolygu’r siarter yn broses gostus ac yn cymryd amser, felly byddai angen rheswm da iawn i gyfiawnhau ei wneud yn amlach. Rydym yn cydnabod bod datblygiadau technolegol, cymdeithasol ac o fewn y farchnad yn symud yn gyflym, ond dim ond os oedd y Siarter yn rhy gyfyng yn y lle cyntaf neu os nad oedd y BBC a/neu’r farchnad ehangach y mae’n gweithredu o’i mewn yn cael ei rheoleiddio’n ddigonol y gallai Siarter Frenhinol y BBC fynd yn amherthnasol cyn iddi gael ei hadolygu. Cyn belled ag y rhoddir ystyriaeth ddyledus i’r ffactorau hyn cyn cytuno’n derfynol ar y Siarter newydd a thra bydd mewn grym, yna dylai’r risg honno fod yn un fach iawn.

Rydym yn derbyn bod yna sail dros ystyried newid hyd Siarter Frenhinol y BBC, er mwyn torri’r cysylltiad rhwng adolygiadau’r Siarter a chylch etholiadol y DU. Mae rhai rhanddeiliaid wedi galw am i Siarteri’r dyfodol bara am un flwyddyn ar ddeg, fel bod y broses adolygu yn cael ei datgysylltu o agenda llywodraethau olynol sy’n dod i mewn. Byddai hyn yn ategu annibyniaeth y BBC ar y Llywodraeth. Mae pryderon ynghylch yr annibyniaeth hon yn ganolog iawn i’r drafodaeth ar hyn o bryd, er nad ydynt yn cael eu cydnabod

yn uniongyrchol yn y ddogfen ymgynghori. Oherwydd hynny, byddem yn cytuno y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig hwn.

**Casgliad**

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae yna benderfyniadau allweddol i'w cymryd ynghylch darlledu a threfniadau rheoleiddio yn y DU ac yng Nghymru, gan gynnwys adnewyddu Siarter y BBC ac ystyried ymhellach gasgliadau Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi a Chomisiwn Smith yn yr Alban.

Mae'r strwythurau darlledu sydd gennym ar hyn o bryd yn sicr o newid yn y dyfodol. Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau a bod yn rhagweithiol yn y drafodaeth hon, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn gwarchod ac yn hyrwyddo buddiannau pobl a busnesau yng Nghymru. Mae'r rhaglenni a ddarlledir mor bwysig i'n bywyd fel gwlad sy'n dod yn fwyfwy datganoledig fel bod yn rhaid dod o hyd i drefniadau newydd, o fewn y setliad cyfansoddiadol presennol, sy'n caniatáu i fuddiannau Cymru gael eu trafod a'u deall ac i rywrai ddadlau drostynt.

Mewn perthynas â Siarter y BBC, mae nifer o'r materion a drafodwyd yn yr ymateb hwn hefyd yn berthnasol i'r gwledydd datganoledig eraill. Yn gynharach eleni, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Gweinidogion perthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gofyn am gyfarfod i drafod materion darlledu, gan gynnwys yr adolygiad o'r Siarter. Ar 4 Awst, cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw yn Glasgow. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd y byddent yn cydweithio i sicrhau bod yr adolygiad o'r Siarter yn adlewyrchu'r buddiannau rydym yn eu rhannu ac yn rhoi blaenoriaeth iddynt.

Croesawodd Llywodraeth Cymru adolygiad pellach Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwnnw yn sail i drafodaeth a fydd yn parhau am natur rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Rhaid i rôl y prif Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o anghenion pobl gwledydd a rhanbarthau'r DU. Fodd bynnag, ar ôl datganoli pwerau helaeth i'r llywodraethau datganoledig, ni chynhaliwyd gwerthusiad nac asesiad o ran pa mor addas yw rhwymedigaethau cyfredol gwasanaethau cyhoeddus i'w diben. Dros yr un cyfnod, caniatawyd i'r rhwymedigaethau hynny gael eu herydu, am resymau masnachol i raddau helaeth. Erbyn hyn, mae angen yr asesiad hwn ar frys a dylid ei gynnal ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Siarter, fel sail i unrhyw dargedau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y gwledydd gwahanol a'r rhanbarthau a allai gael eu cynnwys yn y Siarter newydd, a fydd yn gysylltiedig â set newydd o ddibenion a gwerthoedd cyhoeddus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae rôl lawn a gweithredol yn yr adolygiad o'r Siarter, i sicrhau bod y Siarter newydd yn adlewyrchu'n llawn fuddiannau pobl Cymru a'r setliad datganoledig cyfredol sy'n newid. Byddwn

yn defnyddio ein sedd ffurfiol wrth y bwrdd i ddadlau dros y gwasanaethau y mae pobl Cymru yn eu haeddu.